**Cyngor Sir Ynys Môn**

**Swydd Disgrifiad / Manyleb Person**

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**Teitl Swydd:** Athro / Athrawes **-** Cyfnod Sylfaen

**Rhif y Swydd:**

**Gwasanaeth / Adain:** Dysgu – Ysgol Gynradd Amlwch

**Graddfa:** Graddfa Cyflog Athrawon

## Pwrpas Cyffredinol y Swydd

Cyflawni dyletswyddau proffesiynol athro fel sy'n ofynnol gan y safonau proffesiynol ar gyfer athrawon yn ôl yr amgylchiadau ac yn unol â pholisïau'r ysgol o dan gyfarwyddyd y Pennaeth. Bod yn gyfrifol am ddysgu a chyflawniad disgyblion a sicrhau cyfle cyfartal i bawb.

Amlinellir dyletswyddau a chyfrifoldebau proffesiynol athrawon yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru).

**Cyffredinol:** *Cydymffurfio â Pholisi Diogelu Corfforaethol yr awdurdod lleol a'r dyletswyddau a chyfrifoldebau diogelu y mae'r polisi hwnnw'n ei roi ar bob gweithiwr, gan gydweddu â gwerthoedd craidd yr Awdurdod sy'n cynnwys cefnogi plant, oedolion a all fod mewn perygl a'u teuluoedd er mwyn eu cadw'n ddiogel ac iach.*

## Prif Ddyletswyddau / Cyfrifoldebau:

1. Sicrhau addysgu effeithiol a'r defnydd gorau o'r amser sydd ar gael
2. Cyflwyno'r cwricwlwm fel y bo'n berthnasol i'r grŵp/pwnc yr oedran a'r gallu yr ydych yn eu haddysgu
3. Bod yn atebol am gyrhaeddiad, cynnydd a chanlyniadau'r disgyblion rydych yn eu haddysgu
4. Datblygu cynlluniau gwaith a chynlluniau gwersi yn unol ag amcanion y cwricwlwm, a gwahaniaethu yn briodol gyda golwg ar hybu datblygiad galluoedd a doniau'r disgyblion.
5. Asesu, cofnodi ac adrodd ar ddatblygiad, cynnydd, lles a chyrhaeddiad disgyblion.
6. Rhoi adborth rheolaidd i ddisgyblion, ar lafar a thrwy farcio cywir, a lle bo angen, annog disgyblion i ymateb i'r adborth, adlewyrchu ar gynnydd, eu hanghenion sy'n dod i'r amlwg ac i gymryd agwedd gyfrifol a chydwybodol at eu gwaith a'u hastudiaeth eu hunain.
7. Gosod gwaith cartref a chynllunio gweithgareddau eraill y tu allan i'r dosbarth i atgyfnerthu ac ymestyn y wybodaeth a'r ddealltwriaeth y mae disgyblion wedi eu caffael fel y bo'n briodol
8. Cymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer paratoi disgyblion ar gyfer arholiadau ac asesiadau, asesu disgyblion at ddibenion arholiadau o'r fath a chofnodi ac adrodd ar asesiadau o'r fath; a chymryd rhan mewn trefniadau cyflwyno disgyblion ar gyfer arholiadau o'r fath.
9. Cyfathrebu a chysylltu'n effeithiol â rhieni/gofalwyr o ran cyflawniadau a lles disgyblion a pharatoi a chyflwyno adroddiadau llawn gwybodaeth.
10. Gweithio'n rhagweithiol ac effeithiol mewn cydweithrediad a phartneriaeth gyda llywodraethwyr, staff eraill ac asiantaethau allanol er lles pennaf y disgyblion.

11. Bod yn gyfrifol am baratoi a datblygu deunyddiau addysgu, rhaglenni addysgu, a threfniadau bugeiliol fel y bo'n briodol.
12. Sefydlu amgylchedd diogel, pwrpasol ac ysgogol i ddisgyblion, wedi'i wreiddio mewn parch at y naill a'r llall, gan gadw bob amser at ffiniau priodol sy'n addas i safle proffesiynol athro, a sefydlu fframwaith ar gyfer disgyblaeth gydag ystod o strategaethau, gan ddefnyddio canmoliaeth, sancsiynau a gwobrau yn gyson ac yn deg.
13. Cynnal trefn a disgyblaeth dda ymhlith y disgyblion a diogelu eu hiechyd a'u diogelwch pan gânt eu hawdurdodi i fod ar dir yr ysgol a phan fyddant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ysgol awdurdodedig mewn mannau eraill.
14. Bod yn gyfrifol am hyrwyddo a diogelu lles plant a phobl ifanc o fewn yr ysgol, codi unrhyw bryderon gan ddilyn protocol/gweithdrefnau ysgol.
15. Mynychu cyfarfodydd a chymryd rhan yn y gwaith o adolygu, datblygu a rheoli gweithgareddau sy'n ymwneud â'r cwricwlwm, trefniadaeth a swyddogaethau bugeiliol yr ysgol.
16. Cofrestru presenoldeb a goruchwylio dysgwyr, cyn, yn ystod neu ar ôl sesiynau ysgol fel y bo'n briodol.
17. Cymryd rhan mewn tasgau gweinyddol a threfniadol o fewn cylch gorchwyl y ddogfen gyfredol ar Gyflogau ac Amodau Athrawon Ysgol, gan gynnwys cyfarwyddo neu oruchwylio unigolion sy'n darparu cymorth i'r athrawon yn yr ysgol; a mynychu gwasanaethau.
18. Rhoi sylw proffesiynol i ethos, polisïau ac arferion yr ysgol yr ydych yn addysgu ynddi.
19. Gweithio fel aelod o dîm a nodi cyfleoedd i weithio gyda chydweithwyr a rhannu'r gwaith o ddatblygu arfer effeithiol gyda nhw.

| **Manyleb Person** | **Hanfodol (H)<br>Dymunol (D)** |
|---|---|
| **Addysg a Hyfforddiant** | |
| **Y gofynion addysgol/cymwysterau proffesiynol neu alwedigaethol sylfaenol ar gyfer y swydd:** | |
| 1. Cymhwyster lefel gradd | **H** |
| 2. Cymhwyster Addysgu Proffesiynol (e.e. TAR) | **H** |
| 3. Cymhwyster ychwanegol mewn maes arbenigol perthnasol | **D** |
| **Unrhyw hyfforddiant penodol sydd ei angen ar gyfer y swydd gan gynnwys Tystysgrif:** | |
| 1. Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus | **H** |
| 2. Profiad o addysgu cyfnod allweddol/pwnc perthnasol | **D** |
| 3. Profiad o addysgu ar draws ystod o gyfnodau allweddol | **D** |
| **Gofynion Cymhwysedd Allweddol** | |
| **Gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r swydd:** | |
| 1. Gwybodaeth broffesiynol am beth yw ystyr ansawdd a safonau uchel mewn addysgu a dysgu | **H** |

| | |
|---|---|
| 2.Dealltwriaeth broffesiynol o gynhwysiant a strategaethau ar gyfer ennyn diddordeb pob dysgwr<br>3.Dealltwriaeth broffesiynol o ddiogelu o fewn ysgol<br>4.Dealltwriaeth gyfredol o'r cwricwlwm, maes pwnc ac asesu cynnydd disgyblion | **H**<br>**H**<br>**H** |
| **Sgiliau penodol:**<br><br>1. Y gallu i ysgrifennu adroddiadau, cadw cofnodion cywir a sgiliau trefnu effeithiol<br>2. Y gallu i weithio'n dda gydag ystod o gynulleidfaoedd, gan gynnwys rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill<br>3. Hyderus a chymwys yn y defnydd o TGCh<br>4. Y gallu i ddefnyddio agwedd gadarnhaol er mwyn hyrwyddo dysgu ac ymddygiad rhagorol<br>5. Deall gweithdrefnau a deddfwriaeth yn ymwneud â Chyfrinachedd.<br>6. Sgiliau cyfathrebu eithriadol, ar lafar ac yn ysgrifenedig yn y Gymraeg a'r Saesneg | <br><br>**H**<br>**H**<br><br>**H**<br>**H**<br><br>**H**<br>**H** |
| **<u>Nodweddion Personol</u>**<br><br>1. Ymrwymiad i ddisgyblion a'u dysgu, lles a diogelwch<br>2. Y gallu i sefydlu perthynas a chydberthynas o barch ac ymddiriedaeth gyda phlant, eu teuluoedd, gofalwyr ac oedolion eraill<br>3. Hunanwerthuso a gallu addasu i amgylchiadau sy'n newid a syniadau newydd<br>4. Y gallu i flaenoriaethu gwaith<br>5. Y gallu i weithio'n effeithiol ac yn gefnogol o fewn tîm yr ysgol | <br><br>**H**<br>**H**<br><br>**H**<br>**H**<br>**H** |
| **<u>Safle yn y Sefydliad</u>** | |
| **Adrodd i:** Y Pennaeth | |
| **Staff a oruchwylir:** | |
| **<u>Trefniadau ac Amodau Gweithio</u>** | |
| **Wythnos waith:** Dydd Llun i Ddydd Gwener | |
| **Lleoliad gwaith dynodedig:** Ysgol Gynradd Amlwch | |
| **Oriau cytundebol:** Llawn Amser | |
| **<u>Gofynion Iaith</u>** | |
| **Sgiliau Iaith Gymraeg** (gweler y fframwaith sgiliau sydd ynghlwm os gwelwch yn dda) | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwrando (Ticiwch un)** | | Lefel 1 ☐ | Lefel 2 ☐ | Lefel 3 ☐ | Lefel 4 ☐ | Lefel 5 ☒ |
| **Darllen (Ticiwch un)** | | Lefel 1 ☐ | Lefel 2 ☐ | Lefel 3 ☐ | Lefel 4 ☐ | Lefel 5 ☒ |
| **Siarad (Ticiwch un)** | | Lefel 1 ☐ | Lefel 2 ☐ | Lefel 3 ☐ | Lefel 4 ☐ | Lefel 5 ☒ |
| **Ysgrifennu (Ticiwch un)** | Lefel 0 ☐ | Lefel 1 ☐ | Lefel 2 ☐ | Lefel 3 ☐ | Lefel 4 ☐ | Lefel 5 ☒ |
| **Sgiliau Iaith Saesneg** (gweler y fframwaith sgiliau sydd ynghlwm os gwelwch yn dda) | | | | | | |
| **Gwrando (Ticiwch un)** | Lefel 0 ☐ | Lefel 1 ☐ | Lefel 2 ☐ | Lefel 3 ☐ | Lefel 4 ☐ | Lefel 5 ☒ |
| **Darllen (Ticiwch un)** | Lefel 0 ☐ | Lefel 1 ☐ | Lefel 2 ☐ | Lefel 3 ☐ | Lefel 4 ☐ | Lefel 5 ☒ |
| **Siarad (Ticiwch un)** | Lefel 0 ☐ | Lefel 1 ☐ | Lefel 2 ☐ | Lefel 3 ☐ | Lefel 4 ☐ | Lefel 5 ☒ |
| **Ysgrifennu (Ticiwch un)** | Lefel 0 ☐ | Lefel 1 ☐ | Lefel 2 ☐ | Lefel 3 ☐ | Lefel 4 ☐ | Lefel 5 ☒ |

**Hyblygrwydd**

Tynnir eich sylw at y ffaith fod mewn rhai achosion ddyletswyddau a chyfrifoldebau sy’n anodd eu diffinio a gallent amrywio o bryd i’w gilydd heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau a lefel y cyfrifoldebau dan sylw. Yn ychwanegol, mae’n ofynnol ar i bob gweithiwr dderbyn elfen o hyblygrwydd mewn dyletswyddau a chyfrifoldebau a phan fo angen cyfnewid oddi mewn i’r sefydliad er mwyn cwrdd ag anghenion a gofynion y gwasanaeth. Bydd y fath ofynion yn golygu y bydd arbenigedd penodol deilodd y swydd yn cael ei ddatblygu a’i ddefnyddio i’r eithaf er budd y cyflogwr a’r gweithiwr fel ei gilydd.

**Dyddiad paratoi’r ddogfen Disgrifiad Swydd hon:** Awst 2022

## Sgiliau Iaith – Lefelau Asesu Gweithle

(i) Gwrando

| | |
|---|---|
| 0 | Dim sgiliau |
| 1 | Yn gallu deall ymholiadau sylfaenol yn Gymraeg [“Ble mae…?”, “Ga i siarad â…?”] |
| 2 | Yn gallu deall sgwrs gymdeithasol sylfaenol yn Gymraeg |
| 3 | Yn gallu dilyn sgyrsiau arferol sy’n ymwneud â’r gwaith rhwng siaradwyr Cymraeg rhugl |
| 4 | Yn gallu dilyn y rhan fwyaf o sgyrsiau sy’n ymwneud â’r gwaith gan gynnwys trafodaethau grwp |
| 5 | Yn gallu deall pob sgwrs sy’n ymwneud â’r gwaith |

(ii) Darllen

| | |
|---|---|
| 0 | Dim sgiliau |
| 1 | Yn gallu darllen geiriau ac ymadroddion sylfaenol, e.e. arwyddion neu nodiadau byr a syml |
| 2 | Yn gallu darllen deunydd syml sy’n ymwneud â’r gwaith (yn araf) |
| 3 | Yn gallu darllen deunydd arferol gyda geiriadur |
| 4 | Yn gallu darllen y rhan fwyaf o’r deunydd yn eich maes eich hun |
| 5 | Yn gallu deall yr holl ddeunydd sy’n ymwneud â’r gwaith |

(iii) Siarad

| | |
|---|---|
| 0 | Dim sgiliau |
| 1 | Yn gallu sgwrsio’n gyffredinol [cyfarchion, enwau, dywediadau, enwau lleoedd] |
| 2 | Yn gallu ateb ymholiadau syml sy’n ymwneud  â’r gwaith |
| 3 | Yn gallu cynnal sgwrs â rhywun arall, gyda pheth petruster, am faterion gwaith arferol |
| 4 | Yn gallu siarad yr iaith yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd gyda rhai geiriau Saesneg |
| 5 | Rhugl – yn gallu cynnal sgwrs ac ateb cwestiynau, am gyfnod estynedig pan fo angen |

(iv) Ysgrifennu

| | |
|---|---|
| 0 | Dim sgiliau |
| 1 | Yn gallu ysgrifennu negeseuon sylfaenol – “Diolch am y llythyr.  Dyma gopi o’r map” |
| 2 | Yn gallu ateb gohebiaeth syml gyda chymorth |
| 3 | Yn gallu drafftio testun arferol, gyda chymorth golygyddol |
| 4 | Yn gallu paratoi’r rhan fwyaf o’r deunydd ysgrifenedig sy’n gysylltiedig â’r maes, gyda pheth cymorth gwirio |
| 5 | Medrus – yn medru cwblhau gwaith ysgrifennu cymhleth heb yr angen i wirio |